


# Bishop's Word / Gair gan yr Esgob

## What Then Shall We Say?

**Paul's Letter to the Romans sets out most clearly the Gospel that he proclaimed. In the first seven and a half chapters, Paul argues that Jesus is the Saviour of the World, and that to have faith in him is to know salvation. Having argued it through (and it can be tough reading to follow the argument), he then asks a question which is a real turning point in the letter: What then shall we say? Paul takes a deep breath and tries to work through what his argument means.**

The Covid experience has tested us all in unimaginable ways. Even if our lives have not been touched directly by the virus, our way of living has been put out of joint. Everything has altered, and Church life has undergone an enormous change as well: we've learned to worship online and found new ways to serve our communities. We've done well, in fact. Now, as we move beyond Covid, we appear to have reached a turning point, where it feels right to ask the questions: What then shall we say? How do we sum up all that we have learned and experienced from lockdown? Where do we go next?

Read about what we do next on page 8.

## O Ystyried Hyn Oll, Beth a Ddywedwn?

**Mae Llythyr Paul at y Rhufeiniaid yn dangos yn fwyaf clir yr Efengyl y mae'n ei chyhoeddi. Yn y saith bennod a hanner cyntaf, mae Paul yn dadlau mai Iesu yw Gwaredwr y Byd ac mai bod â ffydd ynddo ef yw gwybod beth yw iachadwriaeth. Ar ôl dadlau hyn (ac mae'n gallu bod yn eithaf anodd dilyn ei ddadl), y mae wedyn yn gofyn cwestiwn sydd yn drobwynt gwirioneddol yn y llythyr: O ystyried hyn oll, beth a ddywedwn? Mae Paul yn cymryd anadl ddofn ac yn ceisio egluro beth yw ystyr ei ddadl.**

Mae'r profiad o Covid wedi'n profi ni i gyd mewn pob math o ffyrdd hollol annisgwyl. Hyd yn oed os nad yw ein bywydau wedi'u cyffwrdd yn uniongyrchol gan y firws, mae ein ffordd o fwy wedi cael ei ysgwyd. Mae popeth wedi newid, ac mae bywyd yr Eglwys wedi newid yn aruthrol hefyd; rydyn ni wedi dysgu addoli ar lein, ac wedi canfod ffyrdd newydd o wasanaethu ein cymunedau. Rydyn ni wedi gwneud yn hynod o dda, a dweud y gwir. Erbyn hyn, wrth i ni symud y tu hwnt i Covid, mae'n ymddangos ein bod wedi cyrraedd trobwynt, pan mae'n teimlo'n iawn i ofyn cwestiynau. O ystyried hyn oll, beth a ddywedwn? Sut allwn ni grynhoi'r cyfan rydyn ni wedi'i ddysgu yn y cyfnod clo a'i holl brofiadau? Ble rydyn ni'n mynd nesaf?

Darllenwch beth ydyn ni'n ei wneud nesaf ar dudalen 9.

# What Then Shall we Say? (Continued from page 3)






**Some years ago in the diocese, we began adopting a short phrase as an annual focus for our common life. "Lift up your hearts" and "Be still and know that I am God" were some of the early examples. When the Harries Report on the future of the Church in Wales was published in 2012, we adopted a phrase with a longer life. "Unlocking our Potential" has served us well for the years since then. Potential has been unlocked, lay leaders have come forward in our life, the numbers of vocations have risen, and we have become sharper in the activities that we have undertaken. By God's providence, I think we found ourselves well-prepared for the shock that was visited upon us in 2020.**

Now we must plan for the future. The Bishop's Staff and key members of the Diocesan Team worked hard with me to address this question: "What is the real purpose of the Churches of our diocese?" When we developed our answers, we tried our ideas out on the diocesan Standing Committee and found that there was general agreement.

Now we would like to offer you a new focus for the coming years of our life, drawing on the teaching of Scripture. What is our job as Churches? Which tasks should we give ourselves for the future? Put simply,

To grow Faith

To bring Hope

To demonstrate Love

The reason for our existence is to deepen our faith in God revealed in Jesus, so "Growing Faith" comes first. Our Sunday worship and the call to be disciples are fundamentally designed to grow our own faith, and to invite others to discover faith themselves.

Importantly as well, Christians should be people who lift our communities, who encourage one another, and who show by our lives that there is someone we trust to ensure a good future: Jesus Christ. We should be people who are "Bringing Hope" to everyone we encounter.

Finally, Jesus called us to love one another as he has loved us. "They will know you are Christians by your love" (cf. John 13.35). Christians should be world leaders in "Demonstrating Love".

These three central tasks are offered now as our mission. As we plan for the future and think about what we want our Churches to be, we should be able to say that absolutely everything we do relates to one or other of these three. We should test where we put our energy by these simple commands.

When Paul answered his own question, "What then shall we say?", in the Letter to the Romans, he answered with another question: "If God is for us, who can be against us?" (Romans 8.31).

For our future, I am sure that God is for us, on our side as the *Teulu Asaph.* He will bless the faithfulness of the centuries, and through the Holy Spirit, he urges our contemporary family to go forward. Let us then get on with the mission God has entrusted to us and:

- Grow Faith
- Bring Hope
- Demonstrate Love

**On page 10, you will find examples of people and projects already growing faith, bringing hope and demonstrating love.**

TYFU **FFYDD**

DOD Â **GOBAITH**

DANGOS **CARIAD**

**Rai blynyddoedd yn ôl yn yr esgobaeth, fe ddechreuon ni fabwysiadu dywediad bychan fel canolbwynt blynyddol i'r bywyd cyffredin. "Codwch eich calonnau" ac "Ymlonyddwch a dysgwch mai myfi sydd Dduw" oedd rhai o'r enghreifftiau cynnar. Pan gyhoeddwyd Adroddiad Harries ar ddyfodol yr Eglwys yng Nghymru yn 2012, fe fabwysiadon ni ddywediad gydag oes hirach. Mae "Datgloi ein Potenisal" wedi ein gwasanaethu'n dda iawn am flynyddoedd ers hynny. Mae potensial wedi'i ddatgloi, darllenwyr lleyg wedi dod ymlaen yn ein bywydau, mae mwy o alwedigaethau, mae mwy o fin ar yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Drwy ras Duw, rwy'n credu i ni ganfod ein bod wedi paratoi ein hunain yn dda am y sioc a ddaeth yn 2020.**

Erbyn hyn, mae'n rhaid i ni baratoi am y dyfodol. Mae Staff yr Esgob ac aelodau allweddol o Dîm yr Esgobaeth wedi gweithio'n galed gyda mi i ystyried y cwestiwn hwn: "Beth yw diben gwirioneddol yr Eglwysi yn ein hesgobaeth?" Wrth i ni ddatblygu ein hatebion, roedden ni'n cynnig ein syniadau i Bwyllgor Sefydlog yr Esgobaeth, a chanfod fod yna gytundeb cyffredinol.

Mae'n bryd erbyn hyn i ni gynnig i chi ganolbwynt newydd ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod yn ein bywydau, gan dynnu ar ddysgeidiaeth yr Ysgrythur. Beth yw ein gwaith fel Eglwysi? Pa dasgau ddylen ni eu rhoi i ni ein hunain ar gyfer y dyfodol? Yn syml,

Tyfu Ffydd

Dod â Gobaith

Dangos Cariad

Y rheswm dros ein bodolaeth yw dyfnhau ein ffydd yn Nuw a ddatgelwyd gan Iesu, felly "Tyfu Ffydd" sy'n dod gyntaf. Diben addoli ar y Sul a'r alwad i fod yn ddisgyblion yw, yn ei hanfod, tyfu ein ffydd, a gwahodd eraill i ddarganfod ffydd drostyn nhw eu hunain.

Yn bwysig hefyd, dylai Cristnogion fod yn bobl sy'n codi ein cymunedau, sy'n annog y naill â'r llall, ac sy'n dangos trwy ein bywydau fod yna rywun rydyn ni'n ymddiried ynddo i sicrhau dyfodol da: Iesu Grist. Fe ddylen ni fod yn bobl sy'n "Dod â Gobaith" i bawb rydyn ni'n eu cyfarfod.

Yn olaf, galwodd Iesu ni i garu ein gilydd fel y mae ef wedi'n caru ni. "Bydd pawb yn gwybod mai disgyblion i mi ydych" ( Ioan 13.35). Dylai Cristnogion fod yn arweinwyr y byd ar "Ddangos Cariad".

Mae'r tair tasg ganolog yma'n cael eu cynnig yn awr fel ein cenhadaeth. Wrth i ni baratoi ar gyfer y dyfodol, a meddwl beth ydyn ni eisiau i'n Heglwysi ni fod, fe ddylen ni allu dweud fod popeth rydyn ni'n ei wneud, yn ddiwahân, yn perthyn i un neu fwy o'r tair hyn. Fe ddylen ni brofi lle rydyn ni'n rhoi ein hegni yn ôl y gorchmynion syml yma.

Pan atebodd Paul ei gwestiwn ei hun. "O ystyried hyn oll, beth a ddywedwn" yn y Llythyr at y Rhufeiniaid, fe'i hatebodd gyda chwestiwn arall: "Os yw Duw o'n plaid, pwy a all fod yn ein herbyn?" (Rhufeiniaid 8:31)

Yn ein dyfodol, rwy'n siŵr fod Duw drosom ni, ar ein hochr ni fel *Teulu Asaph*. Bydd yn bendithio ffyddlondeb y canrifoedd a, thrwy yr Ysbryd Glân, mae'n annog ein teulu heddiw i symud ymlaen. Bydded i ni, felly, symud ymlaen gyda'r genhadaeth y mae Duw wedi'i hymddiried i ni.

- Tyfu Ffydd
- Dod â Gobaith
- Dangos Cariad

**Ar y dudalen nesaf, fe welwch enghreifftiau o bobl a phrosiectau sydd eisoes yn tyfu ffydd, dod â gobaith a dangos cariad.**